# PECYN O WYBODAETH BELLACH AM RANNU EICH ANGERDD

## RHANNWCH EICH ANGERDD AT GYNULLEIDFAOEDD A GWAITH YMGYSYLLTU

**a helpwch ni barhau i gyflawni ein gwaith ymgysylltu creadigol ac allgymorth.**

- Mae gwaith ein tîm Ymgysylltu Creadigol yn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y celfyddydau trwy ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc. Gall y gwaith hwn fod ar ffurf sgyrsiau mewn ysgolion, gweithdai, a theithiau o amgylch yr adeilad (wyneb yn wyneb ac yn rhithiol).
- Trwy aelodaeth ein Theatr Ieuenctid mae 210 o bobl ifanc rhwng 4 a 18 oed yn dysgu sgiliau newydd, yn magu hyder ac yn cael hwyl. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd datblygu creadigol i unrhyw un 18 oed a hŷn drwy'n cwmni theatr amatur, Sherman Players.
- Er mwyn cefnogi mynediad fforddiadwy i'n gwaith rydym yn cynnig yr opsiynau Talwch Faint Gallwch a Thalwch Faint Hoffwch ar gyfer holl ragolygon cynyrchiadau Theatr y Sherman, yn ogystal â Thocynnau Hanner Pris i bawb o Dan 25. Ochr yn ochr â'r cynlluniau hyn, mae ein prisiau Sherman 5 yn galluogi pobl sydd erioed wedi medru ymgysylltu â'r theatr o'r blaen i gael y cyfle i wneud hynny. Rydym hefyd yn cynnig tocynnau am ddim i holl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.
- Mae perfformiadau *Paned a Stori* gyda'r dydd yn gyfle delfrydol i aelodau hŷn ein cynulleidfa gymdeithasu a mwynhau darlleniadau sgript wrth law. Mae dros 550 aelod o'n cynulleidfaoedd sydd dros 50 oed wedi mynychu perfformiadau *Paned a Stori* ers mis Ebrill 2022.
- Bob tair blynedd rydym yn cynnal cynhyrchiad cymunedol ar raddfa fawr gan wahodd cymunedau amrywiol i adrodd eu straeon eu hunain ar ein llwyfannau. Y cynhyrchiad fwyaf diweddar oedd *Love, Cardiff: 50 Years of Your Stories* yn 2023, yn gweithio gyda 79 o gyfranogwyr o Ddarpariaeth Dydd Cynhwysol Cathays, y Welsh Ballroom Community, Waulah Cymru, Cymdeithas Cwrdaidd Cymru Gyfan, ac aelodau o'r Gymuned Fyddar. Daeth y prosiect i ben gyda 150 aelod o'r gymuned yn cwrdd mewn Diwrnod o Ddathlu Cymunedol, a thri pherfformiad gwahanol o'r cynhyrchiad *Love, Cardiff: 50 Years of Your Stories*, yn cynnwys 50 o berfformwyr.
- Rydym yn falch iawn o'n statws fel Theatr Noddfa ac yn dathlu ein cymuned fywiog o Geiswyr Lloches trwy ein rhaglen o weithdai creadigol, ein Gŵyl Noddfa flynyddol a'n gwaith ymgysylltu â chynulleidfaoedd.

## RHANNWCH EICH ANGERDD AT DDATBLYGU ARTISTIAID

**gan gefnogi ein gwaith i feithrin artistiaid Cymreig ac wedi'u lleoli yng Nghymru.**

- Ers lansio'r rhaglen yn 2018, mae Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu, sydd am ddim, wedi ymgysylltu â 90 o ddramodwyr ifanc 15-18 oed.
- Adran Lenyddol Theatr y Sherman yw'r unig adran o'i bath yng Nghymru. Ers ei lansio yn 2021 mae dros 340 o awduron Cymreig ac wedi'u lleoli yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn rhaglenni a gweithdai datblygu strwythuredig. Mae 500 wedi cael cyngor trwy sesiynau 'pit stop' neu drwy gyflwyno sgript, ac mae bron i 100 o awduron wedi cael cymorth dramatwrgaidd i ddatblygu eu gwaith (ar gyfer y Sherman a thu hwnt).
- Bob blwyddyn rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogedig i gynllunwyr dan hyfforddiant, cyfarwyddwyr cyswllt a chyfarwyddwyr cynorthwyol ar draws ein cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman. Rydyn ni hefyd yn cefnogi nifer o leoliadau gwaith i dechnegwyr gyda'n hadran Gynhyrchu, ac yn cynnig lleoliadau gwaith o fewn ein tîm Ymgysylltu Creadigol.
- Ers 2015 rydym wedi comisiynu a chynhyrchu gwaith gan 27 o awduron Cymreig ac wedi'u lleoli yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae gennym 4 awdur arall ar gomisiwn i gynhyrchu gwaith yn 2025.
- Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a gweithio gyda'n cymuned o weithwyr llawrydd, gan gyflogi tua 275 o staff ar ystod o gontractau tymor byr, achlysurol a llawrydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn darparu cymorth mewn nwyddau i artistiaid unigol a chwmnïau theatr newydd, ac ar hyn o bryd mae gennym ddau gwmni preswyl, Red Oak Theatre a PowderHouse.
- Mae *Housemates*, ein cyd-gynhyrchiad gyda Hijinx yn 2023, yn adrodd hanes y bobl a wnaeth hi'n bosib cael y cartref byw â chymorth cyntaf trwy sefydlu Gwasanaethau Cymdeithasol Undeb Caerdydd (bellach yr Innovate Trust). Dyma stori â'i gwreiddiau yng nghymuned leol Caerdydd a newidiodd gwrs hanes ar draws y DU. Trwy ddatblygu stori *Housemates* y nod cyffredinol oedd darparu cefnogaeth i greu gwaith rhwng artistiaid niwrowahanol a niwronodweddiadol.